

# NANT PERIS

**Gwerthusiad a Chynllun Rheolaeth Ardal Gadwraeth**

Chambers Conservation Ltd.

# Argraffiad

Argraffiad: Drafft Ymgynghoriad Cyhoeddus

**Chambers Conservation Ltd**
Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr Rhif 09787239
Cyfeiriad Cofrestredig: Studio 2, Mercury House, High Street, Tattenhall, CH3 9PX
www.chambersconservation.com

# Cynnwys

**Y Rhan Gyntaf,** Gwerthusiad Ardal Gadwraeth.


1.0 Cyflwyniad
- 1.1 Sut mae Defnyddio'r Ddogfen hon
- 1.2 Golwg Cyffredinol ar yr Ardal Gadwraeth

2.0 Crynodeb o Ddiddordeb Arbennig

3.0 Llinell Amser Hanesyddol

4.0 Dadansoddiad Gofodol
- 4.1 Ffurf a Threfn
- 4.2 Golygfeydd Allweddol
- 4.3 Mannau Gleision a Choed

5.0 Cymeriad
- 5.1 Golwg Cyffredinol
- 5.2 Cymeriad Pensaernïol
- 5.3 Deunyddiau a Manylion
- 5.4 Ffiniau
- 5.5 Nodweddion, Manylion ac Arwynebau Eraill

6.0 Asedau Hanesyddol
- 6.1 Dynodedig
- 6.2 Annynodedig

7.0 Hanesion Cudd (Dichonoldeb Archeolegol)

8.0 Asedau Dynoedidg Eraill

9.0 Bioamrywiaeth

**Yr Ail Ran**, Cynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth.


1.0 Crynodeb o Ddadansoddiad CGCB
2.0 Deall y Materion
2.1 Cyflwr
2.2 Adeiladau mewn Perygl
3.0 Golwg cyffredinol ar y dadansoddiad CGCB
4.0 Rheolaeth Gadarnhaol
4.1 Asesu Ffiniau
4.2 Diogelwch Deddfwriaethol
4.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth
4.4 Cynaliadwyedd
4.5 Bioamrywiaeth
5.0 Ymgynghori


**Atodiadau**


A. Ffynonellau




# Y RHAN GYNTAF – GWERTHUSIAD ARDAL GADWRAETH.

# 1.0 Cyflwyniad

## 1.1 Sut mae defnyddio'r ddogfen hon

1.1.1 Dylid darllen yr Arfarniad Ardal Gadwraeth yma ochr yn ochr â'r ddogfen ***Cyflwyno a Throsolwg Polisi Cynllunio WEBLINK***, y gellir ei lawrlwytho o wefan y Parc Cenedlaethol. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys eglurhad am bwrpas a methodoleg yr Arfarniad hwn, ynghyd â chyflwyniad cyffredinol i hanes, tirwedd, adeiladau a ffurfiau anheddiad a'r cyd-destun cynllunio a deddfwriaethol, yn cynnwys canllawiau ar ba ddatblygiadau a reolir a lle mae angen caniatâd.

1.1.2 Yn ychwanegol at y Cynllun Rheoli sy'n dod gyda'r arfarniad ardal, paratowyd dogfen arall ***Cyngor Ynghylch Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth - Canllaw Cynllunio ac Ymarferol WEBLINK*** er mwyn ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd presennol, rhoi cyngor ymarferol ar sut i wella perfformiad ynni adeiladau traddodiadol sydd ag arwyddocâd lleol heb niweidio'u cymeriad arbennig na'u perfformiad technegol.

## 1.2 Golwg Cyffredinol ar yr ardal gadwraeth


1.2.1 Mae cwmpas ardal yr astudiaeth yn cael ei ddiffinio'n rhannol gan ffin yr Ardal Gadwraeth (gweler Ffigur 02), ond cynhwyswyd yr ardal o gwmpas (yn cynnwys yr ardal dirwedd gyfagos) er mwyn deall y cyd-destun ehangach a phenderfynu a fyddai unrhyw newidiadau i'r ffin yn briodol.

**Lleoliad a Gosodiad**

1.2.2 Mae Nant Peris yn gorwedd ar ddechrau bwlch Llanberis, rhwng mynyddoedd y Glyderau i'r gogledd a'r dwyrain a'r Wyddfa a'i Chriw i'r de a'r gorllewin. Mae ochrau'r dyffryn yn serth ac ysgythrog, yn codi uwchben y pentref, ac yn adlewyrchu ei darddiad rhewlifol. Mae trum Crib Goch (923m AOD) yn nodwedd arbennig o amlwg ac mae'n amgau'r olygfa tuag at Ben-y-Pass.



**01** Crib-y-Ddysgl




Conservation Area
1:2500 @ A4

**02** Cynllun yr Ardal Gadwraeth ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

1.2.3 Mae Nant Peris yn nodi’r pwynt lle mae’r dyffryn yn dechrau lledaenu, cyn llynnoedd Llyn Peris a Llyn Padarn a phentref Llanberis. Mae Afon Nant Peris yn llifo tua gorllewin y pentref, cyn arllyws i ben de-ddwyreiniol Llyn Peris, oddeutu 0.5km ymhellach i lawr y dyffryn.

1.2.4 Dynodwyd yr Ardal Gadwraeth yn 1974.

# 2.0 Crynodeb o’r Diddordeb Arbennig

2.1.1 Ers canrifoedd bu Nant Peris yn llwybr pwysig drwy fynyddoedd Eryri, o adeg y Rhufeiniaid a chyn hynny. Ceir tystiolaeth gref o weithgaredd cynhanesyddol yn y cyffiniau a byddai safle’r pentref presennol wedi bod yn un deniadol i gael anheddiad. Mae hyn yn sail i ddiddordeb hanesyddol arbennig Nant Peris, ac mae’n cynnig graddfa uchel o werth tystiolaethol, drwy’r posibilrwydd o gael dealltwriaeth bellach am hanes cynnar yr ardal.

2.1.2 Roedd anheddiad canoloesol cynnar yn Nant Peris yn cynnwys ffermydd gwasgaredig gydag ychydig o dir rhyngddynt. Yn anarferol, mae hyn yn dal yn weladwy iawn nesaf at yr Ardal Gadwraeth yn Nant Peris. Mae’n arbennig o amlwg yn y golygfeydd canlynol:

- Mae’r golygfeydd ar draws at adeiladau rhestredig Pen-y-Bryn, Cwm y Wrach a’r ffynnon yn Ffynnon Beris yn dangos yn amlwg patrwm y datblygiad cynnar yn Nant Peris.
- Golygfeydd ar draws at ffermydd Ty Isaf, Swn y Nant a Tyddyn Alice, yn dangos yn amlwg patrwm y datblygiad cynnar yn Nant Peris.

2.1.3 Mae gosodiad tirlun Nant Peris yn hanfodol i ddiddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Mae’r cysylltiadau gweledol tuag at Grib Goch a Chrib y Ddysgl i’r de, a Chrib Llechog i’r gorllewin, Elidir Fawr a’r Glyderau i’r dwyrain, i gyd yn gwneud cyfraniad sylweddol i’r diddordeb arbennig. Nid oes ryfedd fod yr ardal wedi swyno artistiaid a’r rheiny oedd yn chwilio am y pictwrésg ers y 18fed ganrif. Ceir rhai golygfeydd lle mae’r berthynas hon yn arbennig o bwysig i ddiddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Nodir y rhain yn benodol yn nes ymlaen yn yr arfarniad, ond dyma enghreifftiau allweddol:

- Golygfeydd yn edrych tuag at yr Wyddfa a’i Chriw a Chrib Goch, yn dangos cyd-destun tirlun allweddol y pentref.
- Yr olygfa ar draws y fynwent at dalcen tridarn eglwys Sant Peris gyda Clogwyn Mawr a chrib Llechog y tu ôl.



**03** Golygfa tuag at Ben-y-Bryn, Cwm-y-Wrach a Ffynnon Beris.



**04** Golygfa ar draws yr eglwys tuag at grib Llechog.

- Vaynol Arms a’r adeiladau cysylltiedig yng nghyd-destun crib Llechog.

2.1.4 Mae i Nant Peris gymeriad pensaernïol cryf a phendant, wedi osgoi llawer o ddatblygiad hwyrach a’r adeiladau allweddol, megis yr eglwys, Vaynol Arms a Chapel Rehoboth, wedi’u cadw’n dda. Mae’r prif elfennau’n cynnwys:

- Eglwys Sant Peris, yn arbennig ffurf anarferol ochr ddwyreiniol yr adeilad, gyda’i dri thalcen.
- Cyfanrwydd Vaynol Arms a’i berthynas â’r ffordd, ychydig ar led i’r cyfochrog, sy’n creu cymeriad nodedig. Y ffenestri codi a manylion eraill wedi’u cadw. Cyfosodiad y dafarn â’r strwythurau gerllaw.
- Graddfa Capel Rehoboth, a manylion gwreiddiol o ansawdd uchel y ffasâd sy’n wynebu’r ffordd.
- Ffermydd gwasgaredig wedi’u diogelu’n dda, rhai gyda nodweddion a manylion gwreiddiol.

2.1.5 Mae’r gwerth cymunedol yn arbennig o bwysig i’r diddordeb arbennig, yn rhychwantu’r lleol a’r cenedaethol. Mae hyn yn amlwg yn y canlynol:

- Yr eglwys a’r dafarn yn dal i gael eu defnyddio. Hyn yn bwysig i gynulleidfa leol ac ehangach.
- Y mynwentydd helaeth, a oedd yn cefnogi nid yn unig Nant Peris, ond y gymuned ehangach, hyd yn oed ar ôl i Lanberis dyfu.
- Presenoldeb Tîm Achub Mynydd Llanberis yn y pentref ers dechrau’r 1970au.
- Rôl y pentref fel man cychwyn i lawer o ymwelwyr i fynd i weld yr ardal, gyda’r parcio a’r gwasanaethau bws gwennol.




**05** Golygfa o’r Vaynol Arms tuag at grib Llechog.



**06** Capel Rehoboth, Maylion y Ffasâd Eidalaidd

# 3.0 Llinell Amser Hanesyddol

**Cyn hanes**

3.1.1 Rhoddir sylw i hanes Nant Peris mewn mannau eraill. Ni fwriedir i'r crynodeb isod gynnig dim ond cyd-destun i'r afarniad a'r asesiad o ddiddordeb arbennig.

3.1.2 Ceir tystiolaeth helaeth o feddiant cynhanesyddol yn yr ardal ehangach, ond nid oes safleoedd archeolegol cynhanesyddol o fewn 500km i'r ardal gadwraeth. Mae'r safle gwarchodedig agosaf uwchben glan orllewinol Llyn Peris lle mae anheddiad cyn hanes o gytiau crynion (*CN288 Hut Circle Settlement and Rectangular Hut North of Hebron Station*).

3.1.3 Yn adeg y Rhufeiniaid roedd y ffordd oedd yn cysylltu Segontium a Bryn-y-Gefeillliau yn mynd trwy'r dyffryn, er na wyddys ei hunion leoliad. Roedd hefyd gwersyll ymdeithio ym Mhen-y-Gwryd, oedd yn rhychwantu cyffordd fodern yr A4086 a'r A498 (Lynch p.105).

**Canoloesol**

3.1.4 Yn y Canol Oesoedd, roedd y dyffryn yn ffurfio rhan o diroedd tywysogion Gwynedd, oedd yn cael eu defnyddio'n bennaf i ffermio gwartheg, a oedd yn cyfrif am lawer o'u cyfoeth. Canolbwynt y tiroedd hyn oedd Castell Dolbadarn, yr amddiffynfa a adeiladwyd gan Lywelyn ab Iorwerth (Llywelyn Fawr). Roedd yn gam allweddol i Lywelyn ymestyn ei rym dros Wynedd, a arweiniodd iddo ddod yn Dywysog Cymru, bygythiad i Edward I. Ar ddiwedd y 13eg ganrif, gwelodd yr ardal rai o brif rannau'r frwydr rhwng Dafydd ap Gruffudd, Tywysog annibynnol olaf Cymru, a milwyr Edward I. Ym mis Mai 1283 roedd Dafydd yn Nolbadarn ond fe'i gorfodwyd i'r gogledd i Abergwyngregyn cyn cael ei ddal yn y diwedd ym mis Mehefin y flwyddyn honno.

**Arlunwyr y G18fed a Thwristiaeth Gynnar**

3.1.5 Nid yw gwir wreiddiau'r anheddiad wedi'u deall yn dda, ond mae'n edrych yn debyg fod eglwys gynharach ar, neu gerllaw safle Sant Padarn, o ystyried fod y ffynnon sanctaidd (Ffynnon Beris) yn agos a'r cysegriad i'r sant Cymreig cynnar (Sant Peris).

3.1.6 Mae'r eglwys bresennol yn gyfuniad o sawl cyfnod a chafodd ei hadnewyddu'n helaeth gan Henry Kennedy o Fangor yn 1848, pan oedd y gwaith yn cynnwys ailblastro ac ailaddurno a 'gwaith saer newydd'. Rhan gynharaf yr eglwys yw'r corff, a all fod yn dyddio'n ôl i'r 13eg ganrif neu efallai'n gynt, ac mae ganddi do bwa craffrwymedig cain o'r 15fed ganrif. Mae'n debyg fod y transeptau a'r capeli ystlys o ddiwedd y 15fed neu




**07** Darn o Fap y Degwm, yn dangos yr Eglwys a Vaynol Arms (1839)



**08** Eglwys 'Llanberis' dechrau'r 19eg Ganrif (Casgliad y Werin Cymru)

19eg Ganrif

ddechrau'r 16eg Ganrif. Dengys lluniau o ddechrau'r 20fed Ganrif fod yr egwlys wedi'i gwyngalchu yn flaenorol[1].

3.1.7 Ymddengys fod natur wasgaredig yr adeiladu sydd yn dal yn amlwg i dde-ddwyrain yn ardal gadwraeth yn adlewyrchu natur wreiddiol yr anheddiad a oroesodd ymhel i'r 19eg ganirf, gyda ffermydd ucheldir bach yma ac acw ond wedi'u grwpio gyda'i gilydd yn fras.

3.1.8 Codwyd ymwybyddiaeth gan ddyfodiad twristiaeth gynnar ar ddiwedd yr 18ed ganrif yn dilyn ymweliad Pennant ac ymwelwyr pictwrésg cynnar arall a ddaeth ag arlunwyr fel Turner. Mae ei ddarlun ef o Ddolbadarn (1798-99) yn plethu nid yn unig y cysyniad pictwrésg mewn tirwedd ond hefyd adnewyddiad y diddordeb yn Nhywysogion Gwynedd. "*How awful is the silence of the waste,/ Where nature lifts her mountains to the sky,/ Majestic solitude, behold the tower/ Where hopeless OWEN, long imprison'd, pined/ And wrung his hands for liberty in vain.*[2]

3.1.9 Yn raddol daeth Ystâd y Faenol i dra-argwlyddiaethu dros yr ardal wrth i gloddio am lechi a'r chwareli fynd o nerth i nerth. Cyn gynhared â'r 16eg ganrif yr ystâd oedd y prif dirfeddiannwr. Dros y ddau gan mlynedd nesaf caffaelwyd y rhan fwyaf o'r tir yn yr ardal gan yr ystâd, a ehangodd drwy gau tiroedd comin. Trowyd y ffordd yn dyrpeg, tua 1802 ac mae dwy garreg filltir wedi goroesi o'r cyfnod hwn (y tu allan i'r ardal gadwraeth).

3.1.10 Erbyn 1839 mae Map y Degwm yn dangos yr eglwys, y dafarn (y Vaynol Inn) a grŵp gwasgaredig iawn o adeiladau, gweler ffig 07.

3.1.11 Dechreuodd y chwarela masnachol sylweddol mor gynnar â 1787 pan gymerwyd tir ar brydles gan y tirfeddianwyr, teulu'r Assheton Smith o ystâd y Faenol. Tyfodd y gwaith yn sgil creu partneriaeth newydd o dan arweiniad Assheton Smith ac yna'n sylweddol yn dilyn creu tramffordd i Bort Dinorwig yn 1824. Erbyn canol yr 19eg ganrif roedd Chwarel Dinorwig yn cynhyrchu 100,000 tunnell o lechi ac yn cyflogi bron i 3000 o ddynion.

3.1.12 Gyda sefydlu pentref newydd yn Llanberis i wasanaethau'r diwydiannau llechi ac ymwelwyr oedd yn blaguro, ni welwyd fawr o newid yn Nant Peris ac ychydig o ddatblygiadu newydd a fu. Yr adeg hon y dechreuwyd adnabod yr anheddaid o amgylch yr eglwys gynnar fel Nant Peris (neu Hen Lanberis), ar ôl y dyffryn.




**09** Darn o Fap yr Arolwg Ordnans, Mapiwyd 1888.



**10** Ffotgraff cynnar o'r Vaynol Arms (Casgliad y Werin Cymru)

[1] https://coflein.gov.uk/en/site/43803/images?advanced[0][name.value]=St.%20Peris
[2] Pennant, Thomas, A Tour in Wales (1773-76), https://www.library.wales/discover/digital-gallery/pictures/a-tour-in-wales//

20fed Ganrif

3.1.13 Nid oedd datblygiadau yn y19eg ganrif yn fawr mwy nag ychydig o anheddau, yn cynnwys rhestai Glan-yr-afon, mae'n debyg i gefnogi'r diwydiant bach, mwy lleol fel chwarel Gallt-y-llan i'r gorllewin o'r pentref ar lethrau Clogwyn Mawr. Agorodd y chwarel hon yn 1811, a bu'n gweithio dros gyfnod hir [3]

3.1.14 Agorwyd y capel Methodistiaid Calfinaidd Cymraeg (Rehoboth - NPRN 6890) yn 1876 i gynllun O. Morris Roberts.[4] Mae'r arysgrif ar flaen y capel yn awgrymu fod hwn yn lle un cynharach '*adeiladwyd 1833, ail adeiladwyd 1876'*. Roedd tŷ gweinidog i'r dwyrain yn rhan o'r datblygiad. Cyn hynny adeiladwyd y *British School* a'r tŷ cysylltiedig yn 1856. Prifathro cyntaf ysgol y British oedd Morgan Albert Ellis a aeth ymlaen i fod yn ddyn uchel ei barch yn natblygiad Methodistiaeth Galfinaidd yn UDA, ac yn ysgriefnnydd cyntaf Cymanfa Gyffredinol y Methodistaid Calfinaidd.

3.1.15 Yn 1923 adeiladwyd neuadd eglwys, wedi'i hailadeiladu mae'n debyg o strwythur cynharach (bellach Canolfan Wardeiniaid Parc Cenedlaethol Eryri) a chafodd yr eglwys borth mynwent newydd yn 1929. Ar ôl yr ail ryfel byd, ychwanegwyd rhesi o dai cyngor (Nant Ffynnon) at ochr ddwyreiniol ac un at ochr orllewinol y pentref (y tu hwnt i ffin yr ardal gadwraeth).

# 4.0 Dadansoddiad Gofodol

## 4.1 Ffurf a Threfn yr Anheddiad

4.1.1 Mae ffurf y datblygiad yn Nant Peris yn dal yn amlwg iawn o'i darddiad cynnar fael grŵp o ffermdai bach gydag eglwys a thafarn. Ychydig iawn o dwf neu ddatblygiad a fu o amgylch yr eglwys, heblaw agor y Vaynol Inn, a agorwyd yn wreiddiol fel rhan o ffermdy (Tŷ'n Llan) tua 1780[5], tan i'r ffordd dyrpeg gael ei hadeiladu.

4.1.2 Mae'r diffyg cyffredinol hwn o ddatblygiad cnewyllol yn rhoi ei gymeriad arbennig i'r anheddiad, y tu hwnt i graidd yr ardal gadwraeth, ac mae'n anarferol yn y ffaith y gellir gweld y ffurf gynnar yn hawdd. Denygs cofnodion Ystâd y Faenol fod rhai o'r ffermdai yma, Pen-y-Bryn, Cae-gwyn a Cwm-y-Wrach yn dod o'r 18fed ganrif neu'n gynt ac i'w gweld ar fapiau'r degwm. Caiff y ffermdai ar ochr ogoleddol y dyffryn, yr eir aynt ar hyd ochr



**11** Golygfa tuag at yr hen British School o'r gorllewin (2021).



**12** Teras Glan-y-afon terrace (2021), o' r gogledd-ddwyrain

[3] https://coflein.gov.uk/en/site/419098/ & Gwyn, David 'Welsh Slate, Archaeology and History of an Industry' (RCAHMW).
[4] (Pevsner) Haslam et. Al. Gwynedd (2009), p.475.
[5] https://historypoints.org/index.php?page=the-vaynol-arms-nant-peris

Capel Rehoboth, Tŷ Isaf, Swn y Nant a Tyddyn Alice eu nodi hefyd yng nghofnodon ystâd y Faenol o'r 18fed ganrif.[6]

4.1.3 Mae craidd y pentref, sy'n ffurfio'r ardal gadwraeth, yn llinol ei ffurf yn gyffredinol, yn dod yn ddatblygiad strimyn cnewyllol i'r gorllewin, yn ymestyn ar hyd yr hen ffordd dyrpeg. Mae hyn yn adlewyrchu rhywfaint o'r datblygiad yn dilyn creu'r tyrpeg, gyda thai mwy megis Dôl Peris a Bron Eryri, Ysgol y British, Capel Rehoboth a theras Glanrafon.

## 4.2 Golygfeydd allweddol

4.2.1 O fewn yr ardal gadwraeth mae nifer o olygfeydd allweddol sy'n darlunio naill ai ddatblygiad hanesyddol y pentref, sy'n caniatáu gwerthfawrogi nodweddion arbennig neu strwythurau allweddol neu sy'n rhoi dealltwriaeth gywir o'i ddatblygiad oddi mewn i'r tirlun ehangach. Mae golygfeydd eraill yn gipolygfeydd pwysig, rhwng adeiladau, neu at nodweddion allweddol sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth a chymeriad yr ardal.

4.2.2 Mae'r golygfeydd naill ai'n statig (golygfa benodol i un cyfeiriad) neu'n ddynamig, yn cwmpasu maes golygfa o bwynt arbennig.

4.2.3 Mae'r rhain fel a ganlyn (gweler Ffig 15):

**A-B** Golygfeydd tuag at yr Wyddfa a'i Chriw a Chrib Goch, yn dangos cyd-destun tirlun allweddol y pentref.

**C** Golygfa ar draws y fynwent at dalcen tridarn eglwys Sant Peris gyda Chlogwyn Mawr y tu ôl.

**D** Golygfeydd drosodd i adeiladau rhestredig Pen-y-Bryn, Cwm y Wrach a Ffynnon Beris sy'n dangos yn glir batrwm datblygiad cynnar yn Nant Peris.

**E** Golygeydd drosodd i ffermdai Tŷ Isaf, Swn y Nant a Tyddyn Alice, yn dangos yn glir batrwm datblygiad cynnar yn Nant Peris.

**F** Golylgfeydd tuag at Eglwys Sant Peris o'r hen ffordd dyrpeg.

**G** Golygfeydd ar draws y fynwent tuag at domenni rwbel Dinorwig.

**H** Adeiladau, Vaynol Arms, y ganolfan Achub Mynydd yng nghyd-destun crib Llechog.

[6] Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd, AAC Mawrth 2011.



**13** Canofan y Tîm Achub Mynydd a'r olygfa tuag at Crib Goch.



**14** Coed amlwg o'r fynwent (gweler 4.3).

## 4.3 Mannau gleision a Choed

4.3.1 Mae natur datblygiad yn Nant Peris yn golygu fod y mannau gleision yn anffurfiol ac amaethyddol eu natur, ar wahân i'r fynwent a'r mynwentydd 20fed ganrif nesaf ati.

4.3.2 Mae'r gosodiad amaethyddol i'r de-ddwyrain (y tu allan i ffin bresennol yr ardal gadwraeth) ac o fewn yr ardal gadwraeth gyferbyn â'r Vaynol Arms yn arbennig o bwysig gan eu bod yn cynnig golygfa gyd-destunol o batrymau'r anheddiad cynnar.

4.3.3 Dangosir grwpiau penodol eraill o goed ar y cynllun yn **Ffig 25**, yn cynnwys:

- Coed unigol yn y fynwent, yn cynnwys ywen sylweddol a ffynidwydd sy'n fframio'r olygfa o'r eglwys i'r de.

# 5.0 Cymeriad

## 5.1 Golwg cyffredinol

5.1.1 Mae cymeriad Nant Peris wedi'i wreiddio'n sylfaenol yn y tirlun sy'n ei amgylchynu. Gwelir adeiladau yng nghyd-destun tir amaethyddol, neu'r mynyddoedd wrth i'r dyffryn fynd yn serthach.

5.1.2 Mae natur wasgaredig yr anehddiad gwreiddiol yn glir, gyda ffermydd ar raddfa fechan yn dal i eistedd yng nghyd-destun Eglwys Sant Peris, yn arbennig i'r dwyrain a'r gogledd-ddwyrain.


5.1.3 Mae datblygiad bychan y 18fed Ganrif o gwmpas Eglwys Sant Peris yn dal yn amlwg, drwy ddatblygiad y Vaynol Arms (o ffermdy sy'n dal yno), ond prif gymeriad yr ardal gadwraeth heddiw yw anheddiad llinol ar raddfa fechan, sy'n adlewyrchu datblygiadau'r 19eg ganrif ar hyd y ffordd dyrpeg, yn arbennig rhestai Glan-yr-afon, capel Rehoboth a chreu anheddau ychydig yn fwy megis Bryn Eryri, Dol Peris a Glyn Peris.



**15** Dol Peris o'r de. (2021).



**16** Carreg rwbel a tho llechen hwyrach, Eglwys Sant Peris




Key Views
1:2500 @ A4

**17** Golygfeydd Allweddol yn yr Ardal Gadwraeth a'r cyffiniau (© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

## 5.2 Cymeriad Pensaernïol

5.2.1 Ffermdai bychan yw'r adeiladau cynharaf, fel arfer adeiladau syml un llawr neu ddeulawr isel. Maent yn syml iawn yn eu hanfod, yn defnyddio meini geirwon crwn, eithaf mawr weithiau, gyda chonglfeini cywrain. Mae Eglwys Sant Peris o rwbel di-haen tebyg gydag addurniadau cywrain.

5.2.2 Mae cynllun a ffurf yr eglwys yn anarferol a nodedig iawn, yn enwedig y talcen dwyreiniol tridarn, sy'n deillio o estyniadau i'r transeptau yn yr 17eg ganrif.

5.2.3 Adeiladau syml Sioraidd un llawr a deulawr sy'n nodweddu'r ffermdai presennol a hefyd y Vaynol Arms, a osodwyd ar ychydig o ogwydd i'r dyrpeg, sy'n creu nodwedd ofodol bendant. Dengys ffotograffau cynnar fod y Vaynol Arms wedi codi mewn uchder ers canol yr 20fed ganrif.

5.2.4 Mae Capel Rehoboth yn gyferbyniad boddhaol i hen ysgol y British a'r adeiladau ar raddfa lai, gyda'i ffasâd Eidalaidd, sy'n cynnwys gwenithfaen llanw gydag addurniadau a phediment o gerrig nadd. Mae'r cyntedd bargodol, ynghyd â'r giatiau a'r rheiliau, gyda'r diffiniad tridan, yn arbennig o fanwl. Carreg rwbel yw'r ochr gydag addurniadau wedi'u rendro, lle mae'n cysylltu â'r hen dŷ capel (bellach Llys Awel).

## 5.3 Deunyddiau

5.3.1 Carreg yw'r prif ddeunydd adeiladu, ond ceir cymysgedd diddorol o lechi, gweinithfaen a rhywfaint o garreg rud. Mae'r adeiladau cynharaf yn syml iawn, yn defnyddio meini geirwon crwn, eithaf mawr weithiau, gyda chonglfeini cywrain, adlewyrchir hyn hefyd yn rhannau cynharaf Eglwys Sant Peris ac yn neuadd yr eglwys.

5.3.2 Gyferbyn â Rehoboth, mae Bwthyn y Nant a'r hen swyddfa bost drws nesaf wedi'u gwneud o flociau gwenithfaen sgŵar mewn haenau, fel mae Dol Peris. Gwenithfaen llanw yw Bron Eryri. Mae'r cyfan yn adlewyrchiad o gyfnod mwy uchelgeisiol ar ôl adeiladu'r ffordd dyrpeg. Fel y nodwyd uchod, mae Capel Rehoboth yn dod â thriniaeth o ansawdd llawer uwch, mwy ffurfiol, drwy ddefnyddio carreg lawn ac addurniadau cerrig nadd, y ddau mewn gwenithfaen.

5.3.3 Yn fwy diweddar daeth rendrad yn ddeunydd poblogaidd ar adeiladau. Mae'r rhain yn fodern fel arfer, wedi'u peintio, fel y Vaynol Arms.

5.3.4 Mae'r rhan fwyaf o'r toi o lechi ac o'r 19eg a'r 20fed ganrif, llechi hollt tenau mewn haenau cyfartal.



**18** Bwthyn y Nant a'r hen Swyddfa Bost . (2021).



**19** Waliau rwbel, gwahanol gerrig maes a chwarel. Sylwer ar domenni rwbel Dinorwig yn y cefndir.


5.3.5 Mae'r ffenestri sydd heb eu rhestru yn yr ardal gadwraeth bron i gyd wedi cael eu hadnewyddu, ond mae'r Vaynol Arms yn cadw ffenestri codi corniog (i'r ochr ogleddol), o'r 19eg ganrif mae'n debyg (mae gan y pen deheuol atgynyrchiadau modern wedi'u hongian o'r top), ac mae Capel Rehoboth wedi cadw'r ffenestri codi pen bwa ar y tu blaen a'r ochrau. Gosododd Bron Eryri ffenestri uPVC newydd ers asesiad 2011.

## 5.4 Ffiniau

5.4.1 Yn amlach na pheidio, waliau cerrig sy'n nodi ffiniau, mae'r rhain yn defnyddio cymysgedd o feini geirwon, cymsygedd o wenithfaen a charreg rud wedi'u cyfuno â llechi o'r chwareli cyfagos. Mae gan rai gerrig mawr, nas triniwyd ar y gwaelod. Mae ailadeiladu dros amser wedi cyfrannu at gymeriad arbennig drwy'r cymysgedd o ddeunydd a'r gwahanol fathau o gerrig a driniwyd a rhai heb eu trin.

5.4.2 Enghreifftiau da yw'r rheiny o amgylch y fynwent, sy'n cynnig cyferbyniad dymunol i lechen y cerrig beddi. Mae newidiadau diweddarach wedi effeithio ar y cymeriad hwn, er enghraifft,waliau cerrig ffurfiol gyda physt modern a ffensio weiren ar eu pen. Mae gan Gapel Rehoboth waliau cerrig mwy ffurfiol gyda meini copa a rheilins i'r ffordd, ac mae'r rhain i gyd yn gyfan.

5.4.3 I'r de o'r ardal gadwraeth mae ychydig o enghreifftiau da o ffensys llechi, yn cynnwys y rhai sydd bob ochr i'r rhodfa yn Tan-y-Bryn.




Listed Buildings
1:2500 @ A4

**20** Adeiladau Rhestredig yn, a gerllaw'r Ardal Gadwraeth (© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

# 6.0 Asedau Hanesyddol

## 6.1 Asedau Hanesyddol Dynodedig

Mae'r asedau dynodedig (adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig) a ganlyn tu fewn i'r ardal gadwraeth:

6.1.1 Henebion Cofrestredig

- *ddim yn berthnasol*

6.1.2 Adeiladau Rhestredig

- *3769 Eglwys Sant Peris.*
- *21849 Capel Rehoboth*

6.1.3 Dynodiadau Ychwanegol Posibl.

Ystyrir y dylai'r Vaynol Arms gael ei asesu gyda golwg o'i restru ar y rhestr genedlaethol.

6.1.4 Mae cyfres o asedau hanesyddol dynodedig arwyddocaol (henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig) o fewn 500m i'r ardal gadwraeth:

- *3770 Ffynnon Beris.*
- *21835 Pen-y-Bryn*
- *21837 Cwm-yr-Wrach*

## 6.2 Asedau Hanesyddol Annynoedidg o Ddidordeb Lleol Arbennig

*Clustnodwyd yr asedau hanesyddol annynodedig canlynol yn rhai o ddiddordeb lleol arbennig (gweler Ffig 23):*


- *Gwesty'r Vaynol Arms (gweler y nodyn uchod).*
- *Canolfan Wardeiniaid Parc Cenedlaethol Eryri/Tîm Achub Mynydd Eryri (hen neuadd yr eglwys).*
- *Bwthyn y Nant a'r Hen Swyddfa Bost*
- *Yr hen British School & Thy'r Ysgol*
- *Llys Awel (yr hen Dy Capel)*
- *Dol Peris a Bron Eryri*



**21** Llys Awel (yr hen Dŷ Capel), 2021.




**22** Tomenni rwbel Dinorwig ar ochr de-ddwyreiniol Elidir Fawr.




Undesignated Assests of Special Local Interest
1:2500 @ A4

**23** Asedau Annynodedig o Ddiddordeb Lleol Arbennig (© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)




Other Designations
1:2500 @ A4

**24** Dynodiadau eraill (© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

# 7.0 Hanesion Cudd (dichonoldeb archeolegol)

7.1.1 Nid ydym yn gwybod beth yw dichonoldeb archeolegol y safleoedd yn yr ardal gadwraeth yn benodol, fodd bynnag, mae tystiolaeth gref fod gweithgaredd cynhanes wedi bod yn yr ardal gyfagos a byddai'r ardal wedi bod yn un ddeniadol i gael anheddiad.

7.1.2 Mae'r pentref hefyd yn agos i'r ffordd Rufeinig o Segontium i Fryn-y-Gefeiliau, a oedd yn pasio drwy'r dyffryn. Er nad yw aliniad y ffordd hon wedi'i ddiffinio na'i ddeall yn dda, gallai fod yn mynd trwy neu'n agos at yr ardal gadwraeth, fyddai'n golygu fod gwaddoddion tanddaearol posibl.

# 8.0 Asedau Dynodedig Eraill

## 8.1 Safle Treftadaeth y Byd

8.1.1 Mae Nant Peris tua 0.5km i'r de-ddwyrain o ffin ddeheuol elfen Tirwedd Mynyddig Chwarel Lechi Dinorwig (2) o Dirlun Chwareli Safle Treftadaeth y Byd Gogledd Orllewin Cymru. Mae Nant Peris yn gorwedd o fewn clustogfa yr ardal hon.


## 8.2 Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

8.2.1 Gorwedd yr ardal gadwraeth i'r dwyrain o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Eryri ac Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Eryri. Mae ffiniau'r rhain yn dilyn Afon Nant Peris. Gweler ffigur 24.

8.2.2 Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) yw safle a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd fel rhan o rwydwaith Natura 2000. Mae safleoedd Natura yn bwysig yn rhyngwladol ar gyfer gwarchod pob math o gynefinoedd bregus a rhywogaethau o fflorau a ffawna gwyllt. Mae ACAoedd yn cynnwys cynefionedd a rhywogaethau tirol a morol (ac eithrio adar sy'n cael eu gwarchod ar wahân) sy'n cael eu rhestru yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

## 8.3 Gorchmynion Cadw Coed

8.3.1 Mae un gorchymyn cadw coed, cyf. SNP052 (T01), i Sycamorwydden (Acer pseudoplatanus). Mae'r goeden yn sefyll i ogledd-orllewin yr eiddo a andabyddir fel Glyn Peris. Glyn Peris, Nant Peris. (gweler ffigur 25).




Trees
1:2500 @ A4

**25** Gorchmynion Cadw Coed (© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

## 8.4 Tirlun Hanesyddol Dynodedig

8.4.1 Mae'r pentref wedi'i leoli hefyd gyda Thirwedd o Ddiddordeb Eithriadol yng Nghymru Dinorwig (HLW(GW)6).

http://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/historiclandscape/FullReport?lang=en&id=HLW%20(Gw)%2012

## 8.5 Dynodiadau Eraill

8.5.1 Mae ardal tirwedd arbennig Gwynedd 07, ymylon Gogledd-Orllewinol Eryri yn dilyn ffin ogledd-ddwyreiniol terfyn y parc cenedlaethol, eto rhyw 0.5km i ogledd-orllewin y pentref.

8.5.2 Yn ogystal, mae'r pentref o fewn y Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol.[7]

# 9.0 Bioamrywiaeth

## 9.1 Coed

9.1.1 Gweler 8.3 am Orchmynion Cadw Coed.

9.1.2 Gweler 4.3 am ddisgrifiad o goed/coedlannau pwysig yn yr ardal gadwraeth sy'n cyfrannu at ei chymeriad arbennig.

## 9.2 Rhywogaethau a Warchodir.

9.2.1 Gwyddom fod nifer o rywogaethau pwysig a warchodir yn bresennol yn Nant Peris a'r cyffiniau.


9.2.2 Gwyddom fod pysgod ymfudol megis yr eog a'r sewin yn bresennol yn Afon Nant Peris. Mae mynediad i'r eogiaid ymfudol i ran uchaf dalgylch Seion (Afon Nant Peris a'r is-afonydd cysylltiedig), yn osgoi Llyn Peris, drwy dwnnel pysgod diolau o 2km. Gall eog a brithyll fynd trwy'r twnnel yn llwyddiannus. Er mwyn lliniaru colli silfeydd a chynefinoedd rhai ifanc yn nalgylch Seiont uchaf gan eogiaid ymfudol, dechreuodd rhaglen stocio yn 1979.

[7] https://www.snowdonia.gov.wales/looking-after/dark-skies



# YR AIL RAN – CYNLLLUN RHEOLI'R ARDAL GADWRAETH.

# 1.0 Cynodeb o Ddadansoddiad CGCB




## CRYFDERAU

- Lleoliad rhwng y Glyderau a'r Wyddfa a'i Chriw.
- Ymwelwyr yn sgil hyn.
- Gosodiad, golygfedd a'r cysylltiadau â'r tirlun ehangach.
- Prydferthwch yr eglwys ar fynwent.
- Tafarn sy'n weithredol ac wedi'i chadw'n dda (Vaynol Arms).
- Presenoldeb Achub Mynydd.

## GWENDIDAU

- Pwysau gan draffig ymwelwyr a pharcio i fynd i fyny'r Wyddfa a'r mynyddoedd cyfagos.
- Diffyg siop a chyfleusterau pentref.
- Rhywfaint o newid i'r prif adeiladau yn cynnwys yr hen British School.
- Nifer yr ail gartrefi ac eiddo AirBnB.

## CYFLEOEDD

- Gwneud mwy o'r eglwys a'r gosodiad.
- Gwell cysylltiadau o'r pentref i faes parcio'r ymwelwyr.
- Defnydd Capel Rehoboth yn y dyfodol.
- Codi proffil ac ymwybyddiaeth o'r Ardal Gadwraeth.
- Safle gwag rhwng Bwthyn y Nant a Phont yr Aur.
- Cyd-destun Safle Treftadaeth y Byd.
- Datblygu twristiaeth gynaliadwy (yn hytrach na AirBnB ac ail gartrefi).

## BYGYTHION

- Pwysau traffig ymwelwyr a pharcio i fynd i fyny'r Wyddfa a'r mynyddoedd cyfagos.
- Capel ddim yn cael ei ddefnyddio mwyach ac angen dyfydol hyfyw a chynaliadwy.
- Newid parhaus, colli golygfeydd oherwydd datblygiadau yn cymryd drosodd.
- Risg i adeiladau rhestredig o fewn yr estyniad arfaethedig i ffin yr ardal gadwraeth.
- Y boblogaeth leol yn edwino a mwy o ailgartrefi, AirBnBs ayb.

# 2.0 Deall y Materion

## 2.1 Cyflwr yr Ardal Gadwraeth

2.1.1 Mae Nant Peris wedi cadw llawer o'i gymeriad arbennig. Fodd bynnag, mae'r ardal gadwraeth yn eithaf bach ar hyn o bryd ac felly nid yw'n gallu gwarchod rhai o rannau cynharaf yr anheddiad ehangach.

2.1.2 Ceir rhai problemau hefyd o fewn yr ardal gadwraeth brsesnnol, sy'n cael effaith andwyol ar ddiddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Newid y gwaith saer, ffenestri a drysau hanesyddol i rai newydd, modern, uPVC fel arfer.
- Rendrad modern dros waith carreg neu rendrad sment (gyda manylion modern) yn lle'r rendrad calch traddodiadol.
- Mae'r safle gwag gerllaw Pont-yr-Afr a Bwthyn y Nant, yn anniben ac mae'r wal sy'n arwain at barapet y bont wedi'i difrodi.
- Colli triniaethau ffin traddodiadol.
- Cerbydau, parcio a thraffig yn cymryd drosodd.

2.1.3 Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys:

- Newid y ffenestri a'r drysau ar adeiladau allweddol yn yr ardal gadwraeth yn cynnwys Dôl Peris, hen ysgol y British, Bryn Eryri, Llys Awel, Bwthyn y Nant a'r hen Swyddfa Bost.
- Rendrad modern i hen Ysgol y British.
- Gormod o darmac o amgylch porth y fynwent i Eglwys Sant Peris, nesaf at y ganolfan achub mynydd ac o amgylch y Vaynol Arms.

## 2.2 Adeiladau Mewn Perygl

2.2.1 Yn ddiweddar gwerthwyd Capel rhestredig Rehoboth wedi iddo gau. Er nad yw'r adeilad ar y gofrestr adeiladau mewn perygl (BAR), gwelwyd rhywfaint o waith yn cael ei wneud yn ystod y gwaith maes.



**26** Ffenestri uPVC newydd, teras Glan-yr-afon



**27** Gwaith yn cael ei wneud ar Gapel Rehoboth, 2021.

2.2.2 Deellir fod y capel wedi cael ei brynu gan grŵp lleol, gyda golwg ar gynnig cyfleusterau lleol o bosibl, sy'n ymddangos yn gadarnhaol, ond bydd angen caniatâd cynllunio a chydsyniad adeilad rhestredig.

2.2.3 Deellir fod Pen-y-Bryn, adeilad rhestredig sydd o fewn ffin yr ardal gadwraeth estynedig, mewn cyflwr gwael. Argymhellir ymchwilio i hyn a gweithredu ar frys (yn cynnwys hysbysiadau statudol) fel y bo'r angen.

# 3.0 Golwg cyffredinol ar y dadansoddiad CGCB.

3.1.1 Gwnaed dadansoddiad CGCB neu SWOT ar gyfer Ardal Gadwraeth Nant Peris. Defnyddir hwn i adnabod y pynciau llosg, ond hefyd rhai o gyfleoedd a chryfderau cynhenid yr ardal gadwraeth. Mae hwn wedyn yn sail i greu'r cynigion rheoli cadarnhaol sydd yn dilyn.

3.1.2 Mae'r dadansoddiad CGCB yn dangos nifer o bwyntiau allweddol i weithredu arnynt, er mwyn adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwella'r gosodiad a'r cysylltiadau rhwng yr eglwys, y Vaynol Arms a'r maes parcio i dwristiaid.
- Cefnogi adfer manylion adeiladu traddodiadol ac uwchraddio cynaliadwy i gael gwell perfformiad amgylcheddol.
- Dod o hyd i ddefnydd newydd addas i Gapel rhestredig Rehoboth, gan alluogi dioglu a gwella ei bwysigrwydd.
- Sicrhau fod gosodiad yr Ardal Gadwraeth yn cael ei warchod drwy ymestyn y ffin.

3.1.3 Dengys y CGCB nifer o wendidau a bygythion, a nodir fel camau gweithredu, mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwella cyfleusterau i'r pentref, sydd yn gyfyngedig ar wahân i'r dafarn a'r eglwys – defnydd newydd i Gapel Rehoboth efallai.
- Ceisio cael cefgnoaeth i wrthdroi'r newidiadau niweidiol i'r adeiladau a'r nodweddion arwyddocaol.
- O bosibl ceisio lleihau nifer y llety AirBnB ac ail gartrefi o blaid datblygiadau twristiaeth mwy cynaliadwy.

- Sicrhau fod mannau gleision a golygfeydd allweddol yn cael eu diogelu drwy ymgysylltiad lleol ac wrth ystyried ceisiadau i ddatblygu.

# 4.0 Rheolaeth Gadarnhaol.

## 4.1 Newid Ffiniau.

4.1.1 Argymehllir fod yr ardal yn cael ei hymestyn i gwmpasu'r ffermydd cynharach i ogledd a dwyrain yr ardal gadwraeth, fel y dangosir ar Ffigur 28.

4.1.2 Cynigir hyn er mwyn adlewyrchu hanes a natur cynnar Nant Peris fel anheddiad o ffermydd gwasgaredig, sydd wedi'i gadw'n dda ac yn eglur iawn ar hyn o bryd.

## 4.2 Diogelwch Polisi Lleol a Chenedlaethol

4.2.1 Ceir cyd-destun y fframwaith deddfwriaethol i Ardaloedd Cadwraeth yn y ddogfen gyflwyniadol ***Cyflwyno a Throsolwg Polisi Cynllunio*** ***WEBLINK.*** Mae'r ddogfen hon hefyd yn rhoi canllawiau a pholisïau cyffredinol.

*4.2.2* *Ni* chynigir cyflwyno cyfarwyddydiau erthygl 4 newydd i ardal gadwraeth Nant Peris.

4.2.3 Fel y nodwyd yn 6.1 o'r Arfaniad Ardal Gadwraeth, argymellir fod Vaynol Arms *yn cael ystyriaeth i'w restru ar y rhestr genedlaethol*. Os nad yw hyn yn bosibl, gellir ailystyried defnyddio cyfarwyddyd erthygl 4.

4.2.4 Mae safle datblygu gwag rhwng Bwthyn y Nant a Phont yr Afr. Gallai *briff dylunio mwy manwl*, os yn briodol, fod y gymorth i ailddatblygu'r plot hwn.

## 4.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth

4.3.1 Byddai mynd i'r afael â rhai o'r problemau (gweler 2.0) a'r gwendidau a'r bygythiadau i'r Ardal Gadwraeth yn creu potensial i wella ei diddordeb arbennig yn sylweddol. Gellir gwneud hyn drwy bwerau cynllunio neu ganllawiau estynedig.

4.3.2 Mae materion penodol sydd angen sylw yn Ardal Gadwraeth Nant Peris yn cynnwys:

- Ystyried arwyneb mwy priodol i'r lleiniau caled o amgylch y Vaynol Arms, gorsaf achub mynydd Llanberis a phorth y fynwent.
- Annog adfer manylion saerwaith mwy addas i adeiladau sy'n arwyddocaol yn lleol, yn lle'r gosodiadau uPVC newydd.
- Cefnogi a chynghori perchnogion newydd Capel Rehoboth.
- Cymryd camau i sicrhau gwarchod yr adeiladau rhestredig o fewn ffin estynedig yr ardal gadwraeth.
- Ceisio datblygiad priodol ar y safle gwag.

4.3.3 Defnyddio'r offerynnau uchod a thrwy'r ymgynghoriad (gweler isod), codi ymwybyddiaeth a phroffil yr Ardal Gadwraeth ac annog datblygu a newid priodol. I gynnwys:

- Ymwybyddiaeth gyda pherchnogion yn Nant Peris a'r gymuned
- Codi ymwybyddiaeth a (gyda chefnogaeth yn y dyfodol) sgiliau i gontractwyr a chrefftwyr lleol.

## 4.4 Cynaliadwyedd ac Uwchraddio Amgylcheddol

4.4.1 Ceir canllawiau ar y dull cywir o gyflwyno gwelliannau effeithlonrwydd ynni, a'r caniatâd angenrheidiol yn Ardal Gadwraeth Eryri yn y ddogfen: ***Cyngor Ynghylch Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth - Canllaw Cynllunio ac Ymarferol WEBLINK***

4.4.2 Mae gan Nant Peris gyfleoedd naturiol i gynhyrchu ynni dŵr micro. Ers 2016 mae Afon Gafr wedi darparu 350kW o bŵer i dai lleol a'r grid ehangach. Mae adeilad yr is-orsaf yn sefyll ar y lôn i Dy Isaf, y tu ôl i Gapel Rehoboth (yn union y tu allan i'r ardal gadwraeth). Ni chafodd y cynllun hwn effaith negyddol ar gymeriad yr ardal gadwraeth. Cafwyd cynlluniau bach eraill yn Blaennant a Gwastadnant.

4.4.3 Gall cynlluniau tebyg fod yn bosibl, ond dylent ystyried y diddordeb a'r cymeriad arbennig anodwyd, gan sicrhau na fydd effaith andwyol.

## 4.5 Bioamrywiaeth

4.5.1 Mae coed yn hollbwysig i'r bioamrywiaeth a'r pwysigrwydd esthetig. Caiff amrywiaeth o goed eu gwarchod gan orchmynion cadw (gweler 8.3). Nodwyd fod gan goed eraill bwysigrwydd yn yr ardal gadwraeth (gweler 4.3).

4.5.2 Ystyrir y dylai'r coed yn y fynwent, yn bennaf y coed yw a'r ffynidwydd gael eu hystyried am orchmynion cadw coed.

4.5.3 Mae cryn botensial i wella bioamrywiaeth yn yr ardal gadwraeth, gallai enghreifftiau o weithredoedd gynnwys:

- Gosod blychau adar ac ystlumod a datblygu cynllun rheoli blychau.
- Gall defnydd priodol o doeau glaswellt a nodweddion adeiledig eraill mewn estyniadau neu adeiladau newydd, lle'n briodol i'r dreftadaeth adeiledig, wella cynefinoedd bywyd gwyllt.
- Rheoli a gwella gwrychoedd.
- Gwarchod coed yn ystod gwaith adeiladu
- Peidio ag ymyrryd er mwyn gadael i goed aeddfedu
- Cadw'r pren marw sy'n sefyll a chreu carnau coed marw ar gyfer trychfilod a bywyd gwyllt arall.

4.5.4 Sicrhau fod datblygiadau'n cael eu llywio'n sensitif gan nodweddion cymeriad pendant yr Ardal Gadwraeth a'u bod yn ystyried tystiolaeth arall o nodweddion hanesyddol a thirlun yr ardal o gwmpas.

4.5.5 Sicrhau y bydd cynigion datblygu yn gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth.

4.5.6 Gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddatblygu a gweithredu prosiectau i gyfoethogi'r tirwedd a chreu a gwella cynefinoedd o werth cadwraeth natur.


4.5.7 Annog datblygiadau i gynnwys mesurau i gyfrannu'n gadarnhaol at fioamrywiaeth gyffredinol yr ardal.

4.5.8 Gwella'r isadeiledd gwyrdd mewn modd sy'n darparu ar gyfer anghenion ynni'r ardal heb effeithio'n andwyol ar fioamrywiaeth na chymeriad yr ardal gadwraeth.

# 5.0 Ymgynghoriad

5.1.1 Ymgynghorwyd ar gynllun Arfarnu a Rheoli'r Ardal Gadwraeth gyda'r canlynol:

- Cyngor Cymuned Llanberis (12/1/22).
- Arolwg arlein a ddosbarthwyd trwy Gyngor Cymuned Llanberis




Proposed Extension to Conservation Area
1:2500 @ A4

**28** Diwygiad arfaethedig i Ffin yr Ardal Gadwraeth (© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

# Atodiadau:

## Atodiad A - Ffynonellau

Dyma'r prif ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd wrth gynhyrchu'r Arfaniad hwn:


Fenton, R. (1810), *Tours in Wales (1804–1813)* (ailgyhoeddwyd gan Gymdeithas Hynafiethau Cymru yn 1917)

Gwyn, D (2006), *Gwynedd: Inheriting a Revolution* (Phillimore, Chichester) Hall, W. (1881),

Gwyn, D *Welsh Slate: The Archaeology and History of an Industry (RCAHMW 2015).*

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd (GAT) adroddiad rhif 929 (Evans, R & Robertson, A)*,* *Nant Peris  Draft Conservation Area Appraisal*, 2011.

GAT, (2000) Historic Landscape Characterisation- Arfon and Llanberis (Rep. No 351)

Hall, E. Hyde (1811), *A Description of Caernarvonshire (1809–11) (argraffiad 1952).*

Haslam, R., Orbach, J. and Voelcker, A. (2009) *The Buildings of Wales: Gwynedd* (Yale University Press, London).

Hughes H & North H. L. *'The Old Churches of Snowdonia' (1924).*

Lewis, S. (1849), *A Topographical Dictionary of Wales* (London)

Pennant, T. (1781), A *Tour in Wales* (London) (1773-76), *Accessed via:* *https://www.library.wales/discover/digital-gallery/pictures/a-tour-in-wales*

Roscoe, T. (1853), *Wanderings and Excursions in North Wales* (London)

Smith, B. & Neville George, T. *British Regional Geology – North Wales (HMSO) 1961.*